# Cwestiwn enghreifftiol SQE2 a thrafodaeth ar yr ateb

## Cyfweliad cleient a nodyn cyfarfod/dadansoddiad cyfreithiol (Ewyllysiau a Diewyllysedd, Gweinyddu ac Ymarfer ym maes Profiant)

*Adolygwyd ddiwethaf ar 28 Tachwedd 2023*

Bydd ymgeiswyr yn sefyll 16 o asesiadau yn SQE2. Er mwyn pasio SQE2, rhaid i ymgeiswyr gael y marc pasio cyffredinol ar gyfer SQE2.

Mae'r cwestiwn enghreifftiol hwn, a thrafodaeth o'r ateb, yn enghraifft o asesiad cyfweliad cleient a nodyn cyfarfod/dadansoddiad cyfreithiol.

Rhoddir 10 munud i ymgeiswyr ystyried yr e-bost ac unrhyw ddogfennau. Yna byddant yn cael 25 munud i gynnal y cyfweliad gyda'r cleient. Bydd gan ymgeiswyr 25 munud i ysgrifennu, â llaw, nodyn cyfarfod/dadansoddiad cyfreithiol o'r cyfweliad maent newydd ei gynnal.

Am ragor o fanylion gweler Manyleb Asesiad SQE2.

**Sylwer bod y cwestiynau enghreifftiol wedi cael eu cyhoeddi er mwyn rhoi syniad o'r math o dasgau y gellid eu gosod i ymgeiswyr. Nid ydynt yn adlewyrchu'r holl ddeunydd sydd wedi'i gynnwys yn SQE2. Efallai na fydd cwestiynau yn y dyfodol yn dilyn yr un fformat yn union.**

# Cwestiwn a phapurau ychwanegol i ymgeiswyr

**Nodyn i Ymgeiswyr:**

**Fe welwch fod rhai termau Cymraeg yn yr asesiad hwn yn cael eu dilyn gan y term Saesneg cyfatebol mewn cromfachau. Yn ogystal, mae rhestr eirfa, sydd wedi'i hatodi, wedi'i ffurfio o'r termau hynny.**

**E-bost at yr Ymgeisydd**

---

**Oddi wrth:** Partner
**Anfonwyd:** 5 Mai 202#
**At:** Yr Ymgeisydd
**Pwnc:** Damian Robins

Mae Damian Robins yn gleient newydd. Mae wedi gwneud apwyntiad i dy weld di heddiw yn dilyn marwolaeth ei chwaer, Astrid Green. Mae wedi anfon copi o ewyllys ei chwaer, sydd wedi'i hatodi.

Fe weli di yn yr ewyllys mai Damian yw un o'r ysgutorion. Mae'n bwriadu gweinyddu'r ystad heb ein help ni ond mae'n ein cyfarwyddo ni i roi cyngor cychwynnol iddo am y canlynol:

- pwy ddylai weithredu fel ysgutorion;

- sut y dylid dosbarthu'r ystad. Rwy'n cael ar ddeall nad oedd rhai o'r asedau a grybwyllir yn yr ewyllys yn eiddo i'r ymadawedig (the deceased) pan fu farw; ac

- eglurhad ynghylch a fydd unrhyw dreth etifeddiant i'w thalu.

Mae sefyllfa teulu Astrid ychydig yn gymhleth, felly mae Damian wedi bod mor garedig â rhoi crynodeb byr i ni o deulu Astrid, ac rwyf wedi atodi hwnnw wrth yr e-bost hwn hefyd. Dylai hyn fod yn ddefnyddiol wrth ystyried telerau ewyllys Astrid.

Bydda' i'n gweithio ar y ffeil gyda thi, felly yn dilyn eich cyfarfod, dylet ysgrifennu nodyn cyfarfod/dadansoddiad achos llawn sy'n nodi'r holl gyngor y dylem ei roi i'r cleient mewn perthynas â'r materion uchod, yn ogystal ag unrhyw faterion eraill y byddwch chi'n eu trafod yn y cyfarfod. Dylet hefyd gynnwys unrhyw ffeithiau allweddol, y camau nesaf i ni a/neu i'r cleient, ac unrhyw faterion sy'n codi o ran ymddygiad proffesiynol.

Diolch

Partner

*Atodiadau:*

1. Copi o Ewyllys Astrid Green
2. Manylion teulu Astrid Green

**Nodyn i Ymgeiswyr:**

**Does dim angen i chi ddelio â materion gofal y cleient (gan gynnwys costau) na materion gwyngalchu arian (money laundering), ac ni ofynnir i chi wneud hynny.**

**Rhestr eirfa ar gyfer Profiant>Cyfweliad a nodyn cyfarfod**

| **Cymraeg** | **Saesneg** |
|---|---|
| amod oedran | age contingency |
| band dim treth | nil rate band |
| busnesu | intermeddle |
| cloc teithio | carriage clock |
| cymynrodd gyffredinol | general legacy |
| dal mewn ymddiriedolaeth | hold upon trust |
| digolledu | compensate |
| (yn) ddiamod | absolutely |
| ewyllysiwr | testator |
| gefeilles | twin sister |
| goroesi | to survive |
| gweddw | widow |
| gwyngalchu arian | money laundering |
| huawdl | articulate |
| mân fuddiolwr | minor beneficiary |
| rhoddion oes | lifetime gifts |
| (yr) ymadawedig | the deceased |
| ymwrthod | renounce |

Dyma fy Ewyllys olaf i ASTRID GREEN o 99 Castle Street Grays Essex RM16 7YY a wneir gennyf y *12fed* dydd hwn o *Fehefin 2010*

1. DIDDYMAF bob Ewyllys a Chodisil blaenorol a wnaed gennyf i.

2. PENODAF fy ngŵr COLIN GREEN a fy mrawd DAMIAN ROBINS a fy chwaer JOAN KNIGHT fel fy ysgutorion a fy ymddiriedolwyr ("fy Ymddiriedolwyr")

3. GWNAF y rhoddion canlynol, yn ddi-dreth ym mhob achos:

   a) I fy mab FRANK GREEN, cloc teithio fy nhaid a roddwyd i fy nhaid ar ei ymddeoliad o ABC plc
   b) I fy nwy wyres GAYNOR GREEN a SUSAN GREEN, y swm o £500 yr un
   c) I fy nai JOHN ROBINS, 500 o gyfrannau yn ABC plc

4. RHODDAF weddill fy ystad (ar ôl talu fy nyledion, costau'r angladd a threuliau ewyllysiol a'r rhoddion a grybwyllir uchod) i'm Hymddiriedolwyr i'w dal mewn ymddiriedolaeth (hold upon trust) ar gyfer cyfryw blant fy chwaer JOAN KNIGHT a fydd yn fy ngoroesi (survive me) ac yn cyrraedd 21 oed ac, os bydd mwy nag u,n mewn cyfrannau cyfartal yn ddiamod (absolutely)

LLOFNODWYD gan y ragddywededig ASTRID GREEN ym mhresenoldeb
y ddau ohonom ac yna gennym ni yn ei phresenoldeb hi

*Astrid Green*

*George Jones*

George Jones
18 Cooper Street
Hackney
Llundain
E9 7TR

Triniwr gwallt

*Sheila Jones*

Sheila Jones
18 Cooper Street
Hackney
Llundain
E9 7TR

Glanhawr

**Nodyn i Ymgeiswyr:**

**Copi yw hwn o'r ewyllys wreiddiol. Gallwch gymryd yn ganiataol bod yr ewyllys wreiddiol wedi cael e chyflawni yn unol â darpariaethau Adran 9 o Ddeddf Ewyllysiau 1837 a bod gan yr ewyllysiwr (testator) gapasiti ewyllysiol llawn.**

**<u>Crynodeb o fanylion teulu'r ddiweddar Astrid Green:</u>**
Yr ymadawedig – bu farw ar 1 Ebrill 202#; priododd Colin Green – cawsant ysgariad yn 2012

**Mab Astrid (ei hunig blentyn):**

**Frank Green** (40 oed); yn briod â Helen; dau o blant – Gaynor Green (19 oed) a Susan Green (16 oed)

---

**Brodyr a chwiorydd:**

**Brawd: Damian Robins** (60 oed); yn briod ag Elena Robins; un plentyn – John Robins (38 oed)

**Chwaer: Joan Knight** (70 oed); Gefeilles (twin sister) Astrid; gweddw (widow); dau blentyn – Fiona a Jack (efeilliaid – 36 oed). Bu farw Jack yr wythnos diwethaf, gan adael gweddw, Maureen, ond dim plant.

---

**Perthnasau eraill:**

Dim: Bu farw rhieni Astrid flynyddoedd lawer yn ôl.

---

# Gwybodaeth am y cleient (a roddir i'r cleient nid i'r ymgeisydd)

**Gwybodaeth am y Cleient (Damian Robins)**

| | |
|---|---|
| **Eich enw:** | Damian Robins |
| **Eich cyfeiriad:** | 46 Cunningham Crescent, Llundain, SE23 0AD |
| **Ffôn:** | 07715 766654 |
| **Dyddiad geni:** | 16 Chwefror 19# |
| **Oedran:** | 60 |
| **E-bost:** | d.robins@gmail.com |

**<u>Amdanoch chi</u>**

Rydych chi'n briod ag Elena ac mae gennych chi un plentyn, John. Rydych chi ac Elena yn weision sifil sydd wedi ymddeol. Rydych chi'n un o dri o blant (gweler isod).

Rydych chi'n ddyn deallus, hyderus a huawdl (articulate). Rydych yn effeithlon ac yn dda gyda gwaith papur a thechnoleg. Gan eich bod wedi ymddeol erbyn hyn, mae gennych gryn dipyn o amser rhydd. Rydych chi'n un o'r ysgutorion a benodwyd yn ewyllys eich chwaer ac rydych chi'n siŵr, ar ôl cael rhywfaint o arweiniad cychwynnol gan y cyfreithiwr, y byddech yn ddigon abl i ddelio â'i hystad hi heb gymorth proffesiynol pellach.

Nid oedd y cyfreithwyr a ddeliodd ag ystad eich diweddar dad wedi gwneud argraff dda arnoch, gan eu bod nhw'n araf ac yn ddrud. Mae eich profiad gyda nhw wedi dylanwadu rhywfaint ar eich barn am y proffesiwn cyfreithiol.

Roeddech chi'n agos at eich chwaer ac at aelodau eraill eich teulu sydd wedi marw'n ddiweddar, ond rydych chi'n tueddu i beidio â gadael i'ch emosiynau ddangos a byddwch chi'n gallu trafod eich teulu diweddar heb ypsetio'n amlwg.

**<u>Astrid Green</u>**

Bu farw eich chwaer, Astrid Green, dros fis yn ôl o diwmor ar yr ymennydd nad oedd modd ei drin. Roeddech yn gwybod ei bod hi'n sâl ac felly nid oedd yn syndod ond roeddech chi'n dal yn drist serch hynny. Nid yw gwybod bob amser yn gwneud pethau'n haws. Roedd hi'n chwaer fawr ardderchog ac yn ffrind i chi. Rydych chi'n teimlo eich bod wedi colli eich "gwarchodwr a'ch ffrind gorau" ac rydych chi'n awyddus i weinyddu ei hystad yn gywir a gweld bod ei dymuniadau'n cael eu gwireddu.

Dyma fanylion personol Astrid:

| | |
|---|---|
| Enw llawn | Astrid Green |
| Cyfeiriad diwethaf | 99 Castle Street, Grays, Essex, RM16 7YY |
| Oedran | 70 (Ganwyd ar 19 Ionawr 19#) |
| Dyddiad marw | 1 Ebrill 202# |
| Statws priodasol | Wedi ysgaru |
| Galwedigaeth | Athrawes ysgol wedi ymddeol |

Mae ewyllys a sefyllfa deuluol Astrid ychydig yn gymhleth a dyna pam eich bod wedi dod i weld cyfreithiwr. Rydych eisoes wedi rhoi copi i'r cyfreithiwr o'r ewyllys a wnaed gan Astrid yn 2010 a chrynodeb byr o'i manylion hi a'ch teulu.

## Rhagor o fanylion am ewyllys Astrid

**Yr ysgutorion eraill:**

Yn ogystal â chi, mae dau unigolyn arall yn cael eu crybwyll fel ysgutorion yn yr ewyllys.

Colin Green

Colin yw cyn-ŵr Astrid. Cafodd Colin ac Astrid ysgariad yn 2012. Nid yw Colin wedi ailbriodi. Mae ganddo bensiwn da ac mae'n eithaf cyfoethog, ar ôl etifeddu swm mawr o arian ar ôl ei fodryb ddwy flynedd yn ôl. Nid ydych wedi trafod yr ewyllys ag ef, ond rydych yn credu bod ei fab, Frank, yn debygol o fod wedi rhoi gwybod iddo am ei chynnwys gan eich bod wedi rhoi copi o'r ewyllys i Frank.

Rydych chi'n siŵr bod yr ysgariad wedi'i gwblhau a bod setliad glân wedi'i wneud h.y. does dim taliadau pellach i'w gwneud.

Joan Knight

Joan yw gefeilles Astrid, mae'n wraig weddw ac, wrth gwrs, mae hi'n chwaer i chi hefyd. Roedd ganddi ganser rai blynyddoedd yn ôl. Mae wedi ymateb yn dda i'w thriniaeth ac mae'r prognosis yn dda. Fodd bynnag, mae hi'n dal i fod yn eithaf gwan a byddai'n well ganddi beidio â gweithredu fel ysgutor. Hefyd, mae hi'n dal i alaru yn dilyn marwolaeth ei mab Jack (gweler isod) ac mae ganddi ddigon i boeni amdano heb y baich ychwanegol o weithredu fel ysgutor i'w chwaer. Nid yw Joan wedi gwneud dim o safbwynt gweinyddu ystad Astrid.

**Y bobl eraill y sonnir amdanynt yn ewyllys Astrid:**

Frank Green

Frank Green (40 oed) yw mab Astrid. Mae Frank yn briod â Helen ac mae ganddynt ddwy ferch: Gaynor Green a Susan Green – gweler isod.

Gaynor Green a Susan Green (wyresau Astrid)

Gaynor (19 oed) a Susan (16 oed) yw unig blant Frank Green (gweler uchod).

John Robins

John Robins (38 oed) yw eich unig blentyn chi, a nai Astrid. Mae John yn sengl ac nid oes ganddo blant.

Plant Joan Knight

Roedd gan Joan efeilliaid. (Maen nhw'n rhedeg yn y teulu.) Mae Fiona yn 36 oed, yn sengl ac nid oes ganddi blant. Bu farw ei gefell, Jack, o drawiad ar y galon ddydd Llun yr wythnos diwethaf, ychydig wythnosau'n unig ar ôl i Astrid farw, sydd wedi bod yn ergyd ddwbl i'r teulu. Roedd Jack yn briod â Maureen ac nid oedd ganddo blant. Nid ydych chi'n gwybod a wnaeth Jack ewyllys ai peidio.

**Eitemau a grybwyllir yn ewyllys Astrid:**

Y cloc teithio (carriage clock)

Torrodd lladron i mewn i dŷ Astrid rai blynyddoedd yn ôl. Un o'r eitemau a gymerwyd gan y lladron oedd y cloc teithio a etifeddodd hi gan ei thaid/thad-cu. Er bod y cloc o werth personol mawr iddi hi a'r teulu, dim ond tua £50 oedd gwerth y cloc.

Cyfrannau yn ABC plc

Fe wnaethoch chi ac Astrid etifeddu 500 o gyfrannau yn ABC plc ar farwolaeth eich taid/tad-cu. Gwerthodd Astrid ei chyfrannau ddwy flynedd yn ôl. Dydych chi ddim yn gwybod faint gafodd hi amdanynt, ond mae gennych chi eich cyfrannau chi sy'n werth tua £1,000 ar hyn o bryd.

**Eiddo a chyllid Astrid**

**Asedau:**

Tŷ – Roedd Astrid yn berchen ar 99 Castle Street, sy'n dŷ teras bach gyda 2 ystafell wely, ac roedd hi'n byw ynddo. Nid oes morgais arno ac mae'n werth oddeutu £250,000. Nid oedd hi'n berchen ar unrhyw dŷ arall.

Car – doedd hi ddim yn berchen ar gar.

Eiddo personol arall – Nid oedd Astrid yn berchen ar unrhyw beth o unrhyw werth penodol. Rydych yn amcangyfrif bod ei holl eiddo personol werth oddeutu £2,000.

Cyfrifon banc a buddsoddiadau – Roedd gan Astrid gyfrif cyfredol gyda NatWest. Rydych yn credu mai'r balans cyfredol yw tua £3,000. Roedd ganddi gyfrifon cynilo gyda HSBC a Santander hefyd. Unwaith eto, nid ydych yn siŵr o'r balansau, ond rydych chi'n credu bod tua £10,000 yn HSBC ac efallai tua £5,000 gyda Santander.

Gallwch gael gafael ar y balansau, os oes angen.

Polisïau yswiriant – Roedd gan Astrid bolisi bywyd gyda LifeCo Ltd ac mae gennych chi'r ddogfen bolisi gartref. Rydych wedi anfon tystysgrif marwolaeth i LifeCo Ltd ac rydych wedi cael llythyr sy'n cadarnhau bod y swm o £10,000 yn ddyledus i'r ystad o dan y polisi ac y caiff ei dalu i'r cynrychiolwyr personol. Gallwch anfon copi o'r llythyr at y cyfreithiwr, os oes angen.

Pensiwn – Roedd Astrid yn cael pensiwn y wladwriaeth a phensiwn galwedigaethol a oedd yn dod i gyfanswm o oddeutu £2,500 y mis. Ni wyddoch a fu unrhyw ordaliad (neu dandaliad) o ran y pensiynau hyn nac a yw cyfandaliad (lump sum) yn ddyledus o ganlyniad i farwolaeth Astrid o dan y pensiwn galwedigaethol. Os oes angen, gallwch wneud ymholiadau gyda darparwr y pensiwn galwedigaethol.

**Dyledion a threuliau:**

Byddai Astrid yn defnyddio cerdyn credyd Marks and Spencer er hwylustod, ond roedd hi

bob amser yn talu'r balans llawn a oedd yn ddyledus bob mis.  Nid ydych yn ymwybodol o unrhyw ddyledion eraill ac rydych yn hyderus ei bod hi'n annhebygol y bydd unrhyw ddyledion heblaw am y bil cerdyn credyd terfynol.  Dydych chi ddim yn siŵr faint fydd hyn – efallai ychydig o gannoedd o bunnoedd.

Costau angladd – roedd y rhain, ynghyd â'r te at ôl yr angladd, yn costio cyfanswm o £5,100 ac fe'u talwyd gennych o'ch arian eich hun.  Mae'r derbynebau gennych gartref. Rydych hefyd wedi cofrestru'r farwolaeth ac wedi talu am dair tystysgrif marwolaeth o'ch arian eich hun.  Nid ydych yn cofio union gost y tystysgrifau marwolaeth ond mae'r dderbynneb gennych gartref.

**Rhoddion:**

Ni wnaeth Astrid unrhyw roddion oes (lifetime gifts).

**Arall:**

Nid oedd gan Astrid unrhyw fuddiannau dan ymddiriedolaeth.

**Teulu a dibynyddion**

Nid oes unrhyw aelodau eraill o'r teulu ac nid oedd gan Astrid unrhyw ddibynyddion.  Nid ydych yn credu bod neb yn debygol o wrthwynebu telerau'r ewyllys.

**Gwybodaeth arall**

- Rydych chi'n credu mai dyma'r unig ewyllys a wnaed erioed gan Astrid.
- Daethoch o hyd i'r ewyllys wreiddiol yn nhŷ Astrid (mewn ffeil o bapurau personol yr oedd Astrid wedi'u paratoi gan ragweld y diwrnod trist pan fyddai'n marw) ac erbyn hyn mae'r ewyllys wedi'i chloi'n ddiogel mewn cwpwrdd yn eich tŷ.
- Roedd eich chwaer yn gwbl gymwys yn feddyliol pan wnaeth hi'r ewyllys – ac, yn wir, tan ei marwolaeth.
- Eich barn am yr ewyllys os gofynnir i chi:
    - Nid oeddech yn synnu'n arbennig o weld nad oedd Astrid wedi gwneud fawr ddim darpariaeth i'w mab, Frank, yn ei hewyllys.  Roedd Astrid yn gwybod ei bod hi'n debygol y byddai Colin yn etifeddu swm sylweddol o'i fodryb a'i bod hi'n debygol y byddai'n pasio'r swm ymlaen i'w mab, Frank.  Rydych wedi rhoi copi o ewyllys Astrid i Frank ac mae ef wedi dweud wrthych nad yw'n gwrthwynebu ei thelerau. Mae gan Colin ddigonedd o'i asedau ei hun i fyw arnynt.
    - Roedd Astrid bob amser yn agos iawn at ei gefeilles, Joan.  Roedd diweddar ŵr Joan wedi gwastraffu arian ac roedd hynny wedi peri gofid mawr i Astrid. Rydych yn meddwl bod Astrid, drwy wneud darpariaeth ar gyfer plant Joan yn ei hewyllys, yn ceisio eu digolledu (compensate) am wariant ffôl eu tad.  Does gennych chi ddim problem gyda hyn ac rydych chi'n fodlon â thelerau'r ewyllys.

**Crynodeb o’r cyngor yr ydych yn ei geisio**

1. Ysgutorion

   Hoffech wybod pwy ddylai weithredu fel ysgutorion. Byddai’n well gan Joan beidio â gweithredu ac mae Colin wedi ysgaru oddi wrth Astrid. Hoffech chi wybod a allech chi weithredu ar eich pen eich hun.

2. Dosbarthu'r ystad

   Rydych am i’r cyfreithiwr roi gwybod i chi sut y bydd yr ystad yn cael ei dosbarthu gan gofio bod Jack wedi marw a’r ffaith nad oedd rhai o’r asedau a grybwyllir yn yr ewyllys bellach ym meddiant Astrid ar ei marwolaeth.

3. Treth etifeddiant

   Rydych yn awyddus i wybod a oes treth etifeddiant i'w thalu, ac i gael eglurhad o sut y caiff ei chyfrifo.

Hoffech gael llythyr lle mae’r cyfreithiwr yn nodi’r sefyllfa mewn perthynas â’r ysgutorion, sut y caiff yr ystad ei dosbarthu ac a oes unrhyw dreth etifeddiant i'w thalu ac, os felly, faint.

# Trafodaeth ar yr ateb

## Nodyn Cyfarfod/Dadansoddiad Cyfreithiol

**PWYNTIAU CYFREITHIOL ALLWEDDOL**

Mae'r rhain yn cynnwys y canlynol:

Sylwer nad oes angen yr union ddyfyniadau (e.e. darpariaethau'r Ddeddf Ewyllysiau 1837 na Deddf Treth Etifeddiant 1984).

***Ysgutorion***

- Ystyried effaith ysgariad ar y ddarpariaeth yn yr ewyllys sy'n penodi Colin fel ysgutor.
- Yr opsiynau sydd ar gael i Joan, fel ysgutor nad yw'n dymuno gweithredu (ac nid yw'n ymddangos ei bod wedi busnesu (intermeddle).
- A yw ysgutor yn gallu gweithredu ar ei ben ei hun, er gwaethaf y rhodd yn yr ewyllys i blentyn.

***Dosbarthu'r ystad***

- Nodi bod y rhodd o'r cloc teithio yn rhodd benodol ac ystyried effaith y rhodd yng ngoleuni'r ffaith nad oedd Astrid bellach yn berchen ar y cloc pan fu farw.
- Nodi bod y rhodd o gyfrannau ABC yn gymynrodd gyffredinol (general legacy) ac ystyried effaith y rhodd yng ngoleuni'r ffaith nad oedd Astrid bellach yn berchen ar unrhyw gyfrannau ABC pan fu farw.
- Nodi bod Susan yn fân fuddiolwr (minor beneficiary) ac ystyried yr effaith sy'n deillio o'r ffaith nad yw hi'n gallu rhoi derbynneb ddilys.
- Ystyried effaith marwolaeth Jack ar ôl Astrid, ar ôl bodloni'r amod oedran (age contingency) sydd yn yr ewyllys.

***Treth Etifeddiant***

- Nodi'r ystad drethadwy.
- Nodi a yw cyfandaliad yn ddyledus gan y darparwr pensiwn galwedigaethol ac, os felly, bydd angen canfod statws treth y taliad hwn.
- Nodi gwerth yr ystad drethadwy a'r band dim treth (nil rate band) sydd ar gael: (yn amodol ar gadarnhau union werth yr ystad drethadwy net ar ddyddiad y farwolaeth).
- Cymhwyso'r gyfradd dreth sy'n berthnasol o ystyried bod yr ystad o fewn y band dim treth.

**ENGHRAIFFT O ATEB**

**Mae ateb enghreifftiol wedi'i roi isod. Enghraifft yw hyn o ateb ymgeisydd a fyddai'n cael ei asesu fel un sy'n amlwg yn cyflawni gofynion cymhwysedd yr asesiad. Nid ateb perffaith na model mo hwn ac maepwyntiau pellach y gellid bod wedi'u gwneud.**

Sylwer, yn hytrach na chopïo o'r nodiadau a wnaed yn y cyfweliad, y gall ymgeiswyr gyfeirio at y nodiadau hyn yn y nodyn cyfarfod. Mae'r atebion enghreifftiol wedi'u cyflwyno fel un ddogfen, heb gyfeirio at nodiadau'r cyfweliad, er hwylustod darllen.

**ENGHRAIFFT O ATEB**

Ymgeisydd yn cyfarfod Damian Robins ynghylch ystad ei chwaer, Astrid Green, a fu farw ar 1 Ebrill 202#.

| | |
|---|---|
| Enw: | Damian Robins |
| Cyfeiriad: | 46 Cunningham Crescent, Llundain, SE23 0AD |
| Ffôn: | 07715 766654 |
| E-bost: | d.robins@gmail.com |

Darparodd Damian gopi o ewyllys Astrid a manylion cryno am ei theulu ond mae'n bwriadu gweinyddu'r ystad ei hun (mae ef wedi ymddeol ac yn dda am wneud gwaith papur).

Rhoddodd fanylion i mi am asedau Astrid a manylion pellach am ei theulu (gweler isod) – roedd e'n agos iawn at ei chwaer). Bu farw nai Damian yn ddiweddar hefyd.

Roedd Astrid yn byw yn y cyfeiriad sydd yn yr ewyllys. Ganwyd Astrid ar 19 Ionawr 19#. Athrawes ysgol oedd Astrid a oedd wedi ymddeol. Ni wnaeth ailbriodi ar ôl iddi hi a Colin Green ysgaru yn 2012.

Mae'r ewyllys (dyddiedig 12 Mehefin 2010) yn penodi Damian yn ysgutor ynghyd â'i chwaer, Joan Knight, a chyn-ŵr Astrid, sef Colin Green. Cafodd Colin ac Astrid ysgariad yn 2012 ac felly ni fydd ei benodiad ef yn dod i rym. Joan yw gefeilles Astrid. Bu farw mab Joan yn ddiweddar ac mae Joan wrthi'n gwella o driniaeth canser felly byddai'n well ganddi beidio â gweithredu fel ysgutor. Nid yw hi wedi cynorthwyo wrth weinyddu'r ystad hyd yma ac felly gall ymwrthod (renounce) â'i hysgutoriaeth neu fe all gadw'r pŵer a neilltuir iddi. Bydd angen i mi gadarnhau hyn â hi ond fe all Damian weithredu fel yr unig ysgutor.

Mae'n ymddangos bod ewyllys Astrid wedi'i llofnodi'n ddilys. O safbwynt y rhoddion, fe ddywedais wrth Damian:

a) Mae mab Astrid, Frank Green, wedi goroesi Astrid ond cafodd y cloc teithio a nodir yng nghymal 3(a) ei ddwyn gan ladron cyn iddi farw - mae'r rhodd yn methu.

b) Mae Gaynor a Susan Green wedi goroesi Astrid a bydd y naill a'r llall yn derbyn £500. Mae Gaynor yn 19 oed a bydd ganddi hawl i dderbyn ei rhodd. Mae Susan dan 18 oed ac ni all roi derbynneb ar gyfer ei chymynrodd. Gallai ei rhieni roi derbynneb yn lle hynny.

c) Mae'r rhodd o gyfrannau i John Robins yn gymynrodd gyffredinol. Gwerthodd Astrid ei chyfrannau yn ABC plc cyn ei marwolaeth. Felly, bydd yn rhaid i'r ysgutorion brynu cyfrannau neu dalu'r swm i John a fyddai'n ei alluogi i'w prynu.

Mae gweddill yr ystad (asedau ar ôl tynnu dyledion, treuliau a chymynroddion) yn trosglwyddo i efeilliaid Joan, Fiona a Jack. Fe wnaeth y ddau oroesi Astrid ac maent yn bodloni'r amod oedran yn yr ewyllys. Fodd bynnag, bu farw Jack ddydd Llun yr wythnos diwethaf. O'r herwydd, bydd cyfran Jack o'r gweddill yn mynd yn ôl ei ewyllys neu ei ddiewyllysedd ef.

<u>Asedau:</u>

99 Castle Street – eiddo bychan â 2 ystafell wely, heb forgais, £250,000.
Nid oedd Astrid yn berchen ar unrhyw eiddo arall.

Eiddo personol (dim car) - £2,000
Cyfrif cyfredol NatWest - £3,000
Cyfrif cynilo HSBC - £10,000
Cyfrif cynilo Santander - £5,000
Polisi Bywyd gyda LifeCo Ltd - £10,000 – mae'r elw'n daladwy i'r ystad

Pensiynau – Roedd Astrid yn derbyn pensiwn y wladwriaeth a phensiwn galwedigaethol a oedd yn dod i gyfanswm o £2,500 y mis. Nid yw Damian yn siŵr a fu tandaliad neu ordaliad pensiwn nac a oes cyfandaliad yn ddyledus dan y pensiwn galwedigaethol.

<u>Dyledion:</u>

Cerdyn credyd M & S – byddai Astrid bob tro'n talu'r balans misol yn llawn. Mae'n debygol bod oddeutu £200 yn ddyledus.
Costau'r angladd - £5,100 – talwyd gan Damian
Treuliau Gweinyddu: 3 tystysgrif marwolaeth – talwyd gan Damian
Ni wnaeth Astrid unrhyw roddion oes - felly, £325,000 yw ei band dim treth.

Ar sail y gwerthoedd uchod, nid yw'n ymddangos y bydd ystad Astrid yn agored i dreth etifeddiant gan fod hyn o fewn y band dim treth sydd ar gael. Mae hyn yn amodol ar wirio'r ffigurau uchod.

**Y camau nesaf**

- Ysgrifennu at Damian i gadarnhau'r cyngor uchod.

- Gofyn i Damian wneud y canlynol:

    - Canfod union werth holl asedau'r ystad ar ddyddiad y farwolaeth;
    - darparu copi o'r llythyr sy'n cadarnhau bod yr enillion o'r polisi bywyd yn daladwy i'r ystad; a
    - holi darparwr y pensiwn galwedigaethol a oes unrhyw daliadau'n ddyledus.

- Ystyried a yw'r taliad(au), os oes rhai, gan y darparwr pensiwn galwedigaethol yn ffurfio rhan o'r ystad drethadwy.

**DADANSODDIAD**

***Pam ei bod hi'n glir bod yr ateb enghreifftiol wedi pasio'r asesiad?***

Ni fwriedir i'r canllawiau canlynol awgrymu mai dyma'r unig ffordd bosibl o ateb ond bydd yn eich helpu i ddeall pam y byddai'r ateb enghreifftiol yn cael ei ystyried fel un y mae'n glir ei fod wedi pasio yn unol â'r meini prawf asesu ar gyfer yr asesiad.

**Meini prawf yr asesiad**

**Cyfweliad:** bydd yn cael ei farcio gan yr asesydd sy'n chwarae rôl y cleient a chaiff ei farcio ar sail sgiliau'n unig. Bydd y **nodyn cyfarfod/dadansoddiad cyfreithiol** yn cael eu marcio gan gyfreithwyr a fydd yn asesu'r ymgeisydd ar sail sgiliau a chymhwyso'r gyfraith. Mae'r marcio'n seiliedig ar grebwyll proffesiynol byd-eang yn hytrach nag ar ddull ticio blychau neu restr wirio.

Mae'r meini prawf asesu ar gyfer **cyfweld** fel a ganlyn:

**Sgiliau**

1. Gwrando ar y cleient a defnyddio cwestiynau'n effeithiol i alluogi'r cleient i ddweud wrth y cyfreithiwr beth sy'n bwysig iddo.
2. Cyfathrebu ac egluro mewn ffordd sy'n addas i'r cleient ddeall.
3. Ymddwyn yn broffesiynol a thrin y cleient yn barchus ac yn gwrtais, gan gynnwys parchu amrywiaeth lle bo hynny'n berthnasol.
4. Dangos ffocws ar y cleient yn ei agwedd tuag at y cleient a'r materion (h.y. dangos dealltwriaeth o'r broblem o safbwynt y cleient a'r hyn y mae'r cleient eisiau ei gyflawni, nid dim ond o safbwynt cyfreithiol).
5. Sefydlu a chynnal perthynas effeithiol â'r cleient er mwyn meithrin ymddiriedaeth a hyder.

Mae'r meini prawf asesu ar gyfer y **nodyn cyfarfod/dadansoddiad cyfreithiol** fel a ganlyn:

**Sgiliau**

1. Cofnodi'r holl wybodaeth berthnasol.
2. Nodi'r camau nesaf perthnasol.
3. Rhoi cyngor sy'n dangos ffocws ar y cleient (h.y. cyngor sy'n dangos dealltwriaeth o'r broblem o safbwynt y cleient a'r hyn y mae'r cleient eisiau ei gyflawni, nid dim ond o safbwynt cyfreithiol).

**Cymhwyso'r gyfraith**

4. Cymhwyso'r gyfraith yn gywir at sefyllfa'r cleient.
5. Defnyddio'r gyfraith mewn modd cynhwysfawr yn sefyllfa'r cleient, gan nodi unrhyw faterion sy'n ymwneud ag ymddygiad moesegol a phroffesiynol, a defnyddio crebwyll i'w datrys yn onest ac yn ddidwyll.

Roedd hi'n glir o edrych ar feini prawf uchod ar gyfer y **nodyn cyfarfod/dadansoddiad cyfreithiol** bod yr ateb enghreifftiol yn gymwys am y rhesymau canlynol:

| | |
|---|---|
| ***MEINI PRAWF SGILIAU*** | |
| **Nodi ffeithiau perthnasol**. | Mae'r ymgeisydd wedi nodi'r ffeithiau allweddol a bennir yn nogfennau'r asesiad ac wrth gynnal y cyfweliad â'r cleientiaid. Er enghraifft, mae'r ymgeisydd wedi deall o ddogfennau'r asesiad mai Damian, Colin a Joan sydd wedi'u henwi fel ysgutorion ond bod Colin ac Astrid wedi ysgaru ar ôl i Astrid weithredu ei hewyllys. Mae'r ymgeisydd hefyd wedi cael gwybod gan y cleient y ffaith nad yw Joan yn dymuno gweithredu fel ysgutor a bod Damian yn barod i weithredu ar ei ben ei hun. |
| **Nodi'r camau nesaf perthnasol** | Mae'r ymgeisydd wedi nodi bod angen, yn dilyn y cyfweliad, roi cyngor ysgrifenedig i'r cleient, a nodi camau nesaf ymarferol priodol eraill i'r cleient. |
| **Rhoi cyngor sy'n canolbwyntio ar y cleient** | Mae'r ymgeisydd wedi dangos dealltwriaeth o bryderon y cleient o safbwynt y cleient, gan fynd i'r afael â'r materion cyfreithiol (e.e. y cwestiwn ynghylch pwy all weithredu fel ysgutor) a'r pryderon personol cysylltiedig (e.e. y cwestiwn ynghylch a all Damian weithredu ar ei ben ei hun, oherwydd byddai'n well gan Joan beidio â gweithredu). |
| ***MEINI PRAWF CYFREITHIOL*** | |
| **Cymhwyso'r gyfraith yn gywir i sefyllfa'r cleient** | Mae'r ymgeisydd wedi nodi'r egwyddorion cyfreithiol sylfaenol perthnasol ac yn eu defnyddio'n gywir yng nghyd-destun ffeithiau achos y cleient. Er enghraifft, mae'r ymgeisydd wedi nodi na fydd treth etifeddiant i'w thalu oherwydd bod ystad Astrid yn is na'r band dim treth, gan nodi mai'r band dim treth perthnasol yw £325,000 ac yn dibynnu ar wybodaeth a gafwyd gan y cleient i benderfynu bod band dim treth llawn ar gael i Astrid. |
| **Defnyddio'r gyfraith mewn modd cynhwysfawr yn sefyllfa'r cleient, gan nodi unrhyw faterion sy'n ymwneud ag ymddygiad moesegol a phroffesiynol, a defnyddio crebwyll i'w datrys yn onest ac yn ddidwyll** | Mae dadansoddiad cyfreithiol yr ymgeisydd yn ddigon manwl yng nghyd-destun ffeithiau achos y cleient. Er enghraifft, mae'r ymgeisydd wedi egluro'n fanwl beth sy'n digwydd i gyfran Jack o'r gweddillion, gan nodi'r hyn a olygir gan "weddillion" a nodi bod gan Fiona a Jack hawl i'r gweddillion (ar ôl goroesi Astrid a bodloni'r amod oedran) cyn egluro y bydd cyfran Jack o ganlyniad yn pasio naill ai dan ei ewyllys ei hun neu reolau diewyllysedd. |